**EBRILL 2024**

CANOLBWYNT CYFLOGAETH
CONWY
EMPLOYMENT HUB
CYMORTH HYFFORDDIANT GRYMUSO
SUPPORT TRAINING EMPOWERMENT

**RHIFYN 7**

Mae fersiwn hygyrch o'r newyddlen ar gael yma

# NEWYDDION Y CANOLBWYNT

## Uchafbwyntiau'r Newyddlen

**Diweddariad Cymunedau am Waith a Mwy**

**Rhaglen Hyfforddi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU**

**Digwyddiadau Busnes Pwrpasol**

## ARDDANGOSFA SWYDDI CONWY

Cafodd Ffair Swyddi a Gyrfaoedd pob sector blynyddol y sir ei gynnal ddydd Iau 22 Chwefror gyda llwyddiant!

Daeth y digwyddiad â 1,117 o fynychwyr gyda'i gilydd gydag 86 o sefydliadau arweiniol, gan daflu golau ar nifer o gyfleoedd gyrfa amrywiol yng Ngogledd Cymru, wrth sicrhau rolau parhaol a dros dro ar gyfer nifer o ymgeiswyr.

Cafodd y digwyddiad ei drefnu gan Ganolbwynt Cyflogaeth Conwy a'i ariannu gan raglen Cymunedau am Waith a Mwy Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, a'i gefnogi gan Cymru'n Gweithio a ddarperir gan Gyrfaoedd Cymru, Creu Menter a Chymorth Busnes Conwy, gan fynd tu hwnt i holl ddisgwyliadau.

Dywedodd Libby Duo, Rheolwr Strategol Canolbwynt Cyflogaeth Conwy:"Roeddem yn disgwyl cynnydd mewn niferoedd o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol yng ngoleuni'r hinsawdd economaidd bresennol a'r galw am weithwyr yn yr ardal hon, ond roedd y nifer a ddaeth i'r arddangosfa'n anhygoel.

"Rydym wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan yr arddangoswyr ac ymwelwyr, yn benodol gan fod gan lawer o'r cwmnïau swyddi gwag ac wedi gallu rhoi cyfweliad cychwynnol i ymgeiswyr, a oedd yn wych o'r ddwy ochr."

Ychwanegodd Jane Cook, Rheolwr Cyflogaeth a Phartneriaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Conwy: "Yr hyn sy'n gwneud Arddangosfa Swyddi Conwy mor arbennig yw'r cyfleoedd go iawn sydd allan yna, a'r llwyfan y mae'n ei roi i ddarpar ymgeiswyr ddarganfod cymaint o wahanol sectorau a thrafod addasrwydd y gyrfaoedd gyda'r cyflogwyr eu hunain

Roedd y canlyniadau'n siarad drostynt eu hunain, o ran nifer y bobl a fynychodd a'r cysylltiadau llwyddiannus a adeiladwyd rhwng y rhai oedd recriwtio, yr addysgwyr a'r sefydliadau sector preifat a chyhoeddus.




Ymysg y rhai oedd yn bresennol oedd Parc Fferm Manorafon o Abergele, Heddlu Gogledd Cymru, Pier Llandudno, Canolfan Yrfaoedd y Fyddin Brydeinig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Thorncliffe Building Supplies, HB Leisure, Carchar Berwyn, Zip World, Dŵr Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Evadx Ltd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yr RAF a llawer mwy.

This document is also available in English.

## CYMUNEDAU AM WAITH A MWY RHAGLEN CYFLOGADWYEDD

Mae Canolbwynt Cyflogaeth Conwy wedi bod yn cynnal Rhaglenni Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus ers 2015, ac er y bydd hyn yn parhau yn 2024-25, mae ychydig o ddiwygio a lleihad sylweddol o 35% yng nghyllideb rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy o 1 Ebrill ymlaen.

Wrth symud ymlaen, mae Cymunedau am Waith a Mwy angen ffocws clir ar gefnogi pobl gyda rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sef y gwaith mae'r Canolbwynt eisoes yn ei wneud.

## CYNLLUN GWARANTU CYFWELIAD

Mae Cynllun Gwarantu Cyfweliad newydd y Canolbwynt eisoes yn elwa cyflogwyr lleol gyda Phier Llandudno, Alpine Coaches, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a nifer o westai yn Llandudno gan gynnwys The Imperial a St George wedi cofrestru.

Mae wedi'i gynllunio i wneud y broes recriwtio yn haws ar gyfer cyflogwyr, mae'n gwella'r broses ymgeisio trwy adael i gyflogwyr gael mynediad at gyfranogwyr y Canolbwynt sydd wedi rhagsgrinio, felly dim ond yr ymgeiswyr mwyaf addas sy'n bodloni'r holl fanylion swydd sy'n cael eu rhoi ymlaen ar gyfer cyfweliad.

Mae'r cynllun yn wasanaeth am ddim sy'n agored i holl gyflogwyr sir Conwy waeth pa mor fawr neu fach yw'r busnes neu sefydliad. Os hoffech wybod mwy am y cynllun neu i gofrestru, ffoniwch Clare ar 01492 577202.



*Lois James, Rheolwr AD ym Mhier Llandudno (canol) gyda Swyddog Ymgysylltu Cyflogwyr y Canolbwynt, Alice (chwith) a Clare (dde)*

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## PROSIECT CYFLOGADWYEDD POBL IFANC

Mae cais llwyddiannus gan y Canolbwynt i barhau ei waith gyda Phobl Ifanc wedi sicrhau £60,662 gan Gronfa Allweddol Conwy a gaiff ei ddefnyddio i helpu a chefnogi pobl ifanc 16-19 oed.

Mae'r Canolbwynt wedi bod yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau i alluogi'r grŵp oedran hwn i ddatblygu sgiliau gydol oes wrth ddarparu cynllun clir i gyflogaeth. Mae digwyddiadau wedi amrywio o Sesiwn Llwybr Gweithgareddau Awyr Agored 10 wythnos mewn partneriaeth â Ffit Conwy, a gafodd ei ddylunio i roi blas i gyfranogwyr o yrfa yn y sector gweithgareddau; cwrs Pasbort i Adeiladu a oedd yn rhoi sgiliau ymarferol i gyfranogwyr ar gyfer gyrfa mewn adeiladu gan gynnwys hyfforddiant achredu mewn Iechyd a Diogelwch yn ogystal â sefyll prawf i gael eu cerdyn CSCS; nifer o gyrsiau cyflogadwyedd 6 wythnos, Symud Ymlaen gyda Youth Shedz Abergele.

Bydd y ddau brosiect yn rhedeg tan ddiwedd mis Tachwedd 2024 a byddwn yn rhoi mwy o fanylion am eu cynnydd yn y newyddlenni nesaf.

## HYDER YN DY HUN

Cais llwyddiannus arall mae'r Canolbwynt wedi sicrhau gan Gronfa Allweddol Conwy yw Hyder yn dy Hun.

Roedd yn rhaglen a gynhaliwyd gan y Canolbwynt tan Wanwyn 2023 gan ganolbwyntio ar leihau arwahanrwydd cymdeithasol; adeiladu cadernid; cynyddu hyder/hunanhyder; datblygu sgiliau ymarferol, ariannol, digidol a chyflogadwyedd tra'n gwella iechyd corfforol a meddyliol a lleihau rhwystrau cymdeithasol ar gyfer 56 o gyfranogwyr.

Bydd y cais am £92,561 yn gweld Hyder yn dy Hun yn parhau ei lwyddiant trwy gefnogi pobl sydd mewn angen.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

WEDI'I YRRU GAN
FFYNIANT BRO

## MENTORIAID CYFLOGAETH I BOBL DDIGARTREF



Mae'r Canolbwynt hefyd wedi gallu derbyn cyllid gan Grant Cymorth Tai Conwy er mwyn cynnal peilot ar gyfer Mentor Cyflogaeth i Bobl Ddigartref dynodedig a fydd yn cryfhau'r canolbwynt ar gefnogi pobl ddi-waith gydag ystod o broblemau tai, ac rydym yn falch o gyhoeddi bod Gemma Donnellan wedi cael ei phenodi ar gyfer y swydd blwyddyn sy'n dechrau yn Ebrill.

Mae Gemma wedi bod yn Fentor Cyflogaeth y Canolbwynt ers 6 mlynedd ac mae hi'n edrych ymlaen at ei rôl newydd a fydd yn ei gweld yn gweithio o fewn y Tîm Atal Digartrefedd er mwyn cefnogi pobl mewn perygl o, neu'n profi digartrefedd er mwyn eu helpu i oresgyn rhwystrau i hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth.

# FFEIRIAU SWYDDI



Er bod Arddangosfa Swyddi Conwy wedi bod, rydym yn parhau i gefnogi cyflogwyr gyda'u hanghenion recriwtio trwy gynnal Ffeiriau Swyddi rheolaidd mewn partneriaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Maximus yng Nghanolfan Byd Gwaith Llandudno a Chanolfan Byd Gwaith ym Mae Colwyn.

Bydd y rhai yn cael eu cynnal bob mis, fel arfer ar ddydd Iau olaf y mis (bydd amserlen lawn ar gyfer y flwyddyn i'w gadarnhau) o 10.30am i 12.30pm. Maent am ddim ac ar agor i holl gyflogwyr sy'n recriwtio ar gyfer swyddi gwag.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu un o'n Ffeiriau Swyddi, anfonwch e-bost at cyflogwyr@conwy.gov.uk a byddwn yn cysylltu â chi.

# CYLLID CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU AR GYFER HYFFORDDIANT

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Mae amserlen lawn ac ystyrlon o lwybrau a chyrsiau hyfforddi wedi cael ei lunio tan ddiwedd Rhagfyr 2024 sy'n agored i unrhyw un sy'n 16+ oed ac yn byw yng Nghonwy sy'n dymuno caffael sgiliau newydd.

Mae'r prosiect sy'n costio £292,510 wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac mae'n chwarae rôl hanfodol i ddarparu hyfforddiant addysg a swyddi hanfodol ar draws y sir.

Hyd yn hyn mae 18 o gyrsiau wedi cael eu datblygu mewn cydweithrediad â chyflogwyr; mae 19 o bobl wedi cael eu cefnogi i gael mynediad at y cwrs sgiliau sylfaenol, mae 54 o bobl wedi cael eu cefnogi i gael cymhwyster, 78 o bobl wedi cael ail-hyfforddiant a 51 o bobl wedi bod yn derbyn cefnogaeth i gael gwaith, gyda 29 yn llwyddo i sicrhau gwaith.

Mae'r prosiect eisoes wedi chwarae rôl sylweddol i helpu 12 o bobl i leihau rhwystrau strwythurol i gyflogaeth ac i ddarpariaeth sgiliau.

Gan fod y prosiect yn parhau yn ei gamau cynnar, mae'r ystadegau hyn yn galonogol iawn ac mae'r Canolbwynt yn hyderus y bydd y canlyniadau yn parhau i ragori ei dargedau.

WEDI'I YRRU GAN
FFYNIANT BRO

# NEWIDIADAU I'R NEWYDDLEN

Dyma fydd ein newyddlen olaf yn y fformat presennol gan ein bod yn symud i lwyfan e-newyddlen sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni drosglwyddo ein cronfa ddata. Os hoffech dynnu eich manylion o'n rhestr bostio fel na fyddwch yn derbyn copïau o'n newyddlen yn y dyfodol, anfonwch e-bost at ceh@conwy.gov.uk gyda'r pennawd "Unsubscribe" a byddwn yn tynnu eich manylion ar unwaith.

## GRŴP LLANDRILLO MENAI

Ydych chi'n edrych ar Grŵp Llandrillo Menai a'r buddion amrywiol mae'n gynnig i gyflogwyr yn ogystal â gweithwyr?

- Mae Sgiliau Cyflogwyr Gogledd Cymru yn elwa cwmnïau trwy ganfod bylchau mewn sgiliau a chyfeirio cyflogwyr at hyfforddiant wedi'i ariannu'n llawn, gyda'r nod o hwyluso twf busnes, diogelu swyddi a chefnogi i greu swyddi newydd.
- Mae'r Academi Ddigidol Werdd yn galluogi busnesau micro, bach a chanolig i leihau eu hôl-troed carbon a chyflwyno technolegau gwyrdd newydd.
- Mae'r Cyfrif Dysgu Personol ar agor i weithwyr sy'n edrych i ddatblygu eu gyrfa bresennol neu ail-ysgrifennu eu gyrfa. Mae'r Cyfrif Dysgu Personol yn darparu mynediad at ystod eang o hyfforddiant hyblyg, am ddim i ennill sgiliau a chymwysterau newydd sydd eu hangen ar gyflogwyr.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch GLLM ar 08445 460 460.

## DIGWYDDIADAU BUSNES PWRPASOL





Ymunodd y Canolbwynt gyda COPA, GLLM a'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu sesiwn bwrpasol o gefnogaeth i weithwyr ar Bier Llandudno, a bu'n llwyddiant ysgubol.

Fel cyflogwr, mae llywio eich ffordd drwy'r niferoedd o hyfforddiant am ddim sydd ar gael i'ch staff yn broses gymhleth, yn ogystal â'r rheolau gwahanol o ran ennill arian a hawlio budd-daliadau. Felly nod y sesiwn oedd dod a'r wybodaeth at ei gilydd mewn ffordd hawdd ei ddeall, gan gymell aelodau i staff i fod eisiau gwybod mwy am agor eu **Cyfrif Dysgu Personol** sy'n galluogi unrhyw un cymwys a thros 19 oed i gael mynediad at gyrsiau hyblyg, rhan-amser, ar-lein a gwella eu rhagolygon gyrfa, a llwyddodd y sesiwn i wneud hynny!

Os hoffech i'r Swyddogion Ymgysylltu Cyflogwyr y Canolbwynt, Clare ac Alice i drefnu sesiwn bwrpasol i'ch gweithlu, anfonwch e-bost at cyflogwyr@conwy.gov.uk.

**Cysylltwch Canolbwynt Cyflogaeth Conwy ar 01492 575578, e-bost ceh@conwy.gov.uk neu ewch https://www.conwy.gov.uk/canolbwyntcyflogaethconwy**

Canolbwynt Cyflogaeth Conwy sy'n rhedeg Rhaglen Gyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, Cymunedau am Waith a Mwy, sydd hefyd yn ariannu'r Warant i Bobl Ifanc.I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglenni, ewch i **https://bit.ly/CEHRhaglenni**

**GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â CHYMUNEDAU**
**WORKING IN PARTNERSHIP WITH COMMUNITIES**